## PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG

| | |
|---|---|
| Dyddiad | 12 Chwefror 2003 |
| Teitl | CYMORTHDALIADAU'R POLISI AMAETHYDDOL CYFFREDIN (PAC) |

**Rhaglen Jigsaw**

1. Ym 1998 cafodd cwmni HEDRA Consulting ei gomisiynu gan Weinidogion i roi cyngor o ran pa gamau oedd yn ofynnol i wella'r gwasanaethau gwael yr oedd y Swyddfa Gymreig ar y pryd yn eu cynnig i ffermwyr.

2. Ystyriodd HEDRA nifer o opsiynau, gan gynnwys trosglwyddo ein swyddogaethau fel Asiantaeth Dalu i MAFF, y Bwrdd Ymyrraeth neu'r sector preifat. Ar ôl ymgynghori â'r diwydiant, Aelodau Seneddol a charfanau eraill a oedd â diddordeb, penderfynodd y Gweinidogion gadw'r gwaith yng Nghymru, gan ddiogelu dyfodol Swyddfeydd Rhanbarthol Caernarfon, Caerfyrddin a Llandrindod. Derbyniwyd argymhellion HEDRA ar foderneiddio'r Swyddfeydd Rhanbarthol ac adnewyddu'r hen systemau cyfrifiadurol. Dechreuodd y rhaglen o newidiadau ym 1999.

3. Penderfynodd Bwrdd Rhaglen JIGSAW ddechrau drwy newid y diwylliant yn Is-adran Rheoli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAPM) a'i seilio ar arweinyddiaeth gref, cyfathrebu da a chreu timau medrus i wasanaethu'r cwsmeriaid. Cafodd sawl menter newydd eu sefydlu i wella ein gwasanaethau i ffermwyr yng Nghymru. Yn bwysicaf oll, ad-drefnwyd y staff a rhoddwyd hyfforddiant iddynt i'w paratoi ar gyfer cyflwyno systemau cyfrifiadurol newydd - y darn olaf o'r jisgô.

4. Cychwynnodd y prosiect i ddisodli'r hen systemau TG o ddifrif ym mis Mai 2000 (enw'r prosiect yw CAPIT). Roedd y gwaith hwn yn hollbwysig. Nid oherwydd bod y systemau presennol yn mynd yn anodd ac yn ddrud i'w cadw yn unig, ond hefyd oherwydd na fyddai wedi bod yn bosibl cynnal y gofynion newydd (er enghraifft, yr angen i seilio IACS ar system Wybodaeth Ddaearyddol, cynlluniau newydd yn sgil diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin) ar yr hen systemau. Heb system TG newydd, ni fyddai'r Cynulliad wedi gallu cyflawni ei gyfrifoldeb i gydymffurfio â'r rheoliadau ac mae'n bosibl na fyddai wedi parhau fel Asiantaeth Dalu'r Undeb Ewropeaidd. Mewn geiriau eraill, byddem wedi bod yn ôl yn y sefyllfa o orfod trosglwyddo gwaith i Asiantaethau Talu eraill yn y DU, o bosibl. Yr RPA yn Reading, er enghraifft. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai dyfodol ein Swyddfeydd Rhanbarthol, unwaith eto, wedi bod mewn perygl difrifol.

**Prosiect CAPIT**

5. Ymdrech ar y cyd yw hon rhwng tîm o staff newydd y Cynulliad a gafodd eu recriwtio yn arbennig i

weithio ar y prosiect, nifer fach o staff TG presennol y Cynulliad sydd wedi symud o'r hen system a'n contractwyr ni, CAP Gemini Ernst and Young (CGE&Y).

6. Cafodd gwasanaethau CGE&Y eu caffael drwy broses dendro gystadleuol i Ewrop gyfan a ddechreuodd yn Awst 2000 ac a ddaeth i ben fis Mawrth 2001 ar ôl dyfarnu'r contract. Ymatebodd tua 76 o sefydliadau i'r cais cyntaf am dendrau.

7. Roedd cynllun prosiect gwreiddiol CAPIT i fod i ddatblygu'r systemau craidd erbyn Mai 2002 a throsglwyddo'r cynlluniau o'r systemau presennol neu'r systemau a etifeddwyd drwy gydol gweddill y flwyddyn a chwarter cyntaf 2003.

8. Erbyn Mai 2002 roedd y system graidd wedi'i chwblhau. Roedd yn seiliedig ar y canlynol:

- System reoli dogfennau (yn caniatáu i holl staff y Swyddfeydd Rhanbarthol gael mynediad electronig cyflym i bob llythyr, gohebiaeth a chysylltiadau eraill â chwsmeriaid unigol);

- Technoleg llif gwaith (yn darparu ciwiau o waith ar gyfer staff y Swyddfeydd Rhanbarthol sy'n galluogi iddynt brosesu ceisiadau yn y drefn briodol o ran pwysigrwydd neu flaenoriaeth); a

- Busnes sy'n rheoli rhesymeg. Golyga hyn ei bod yn system hyblyg a generig sy'n gallu ymdopi â'r gofynion presennol, yn ogystal ag unrhyw fath o fesurau rheoli neu daliadau newydd a allai ddod i fodolaeth yn y dyfodol.

9. Yn ogystal â throsglwyddo cynlluniau o'r hen system i CAPIT, bu'n rhaid cwblhau y dasg sylweddol o greu System Wybodaeth Ddaearyddol ar gyfer ymgeiswyr IACS (y gellir seilio ceisiadau arni o 2003 ymlaen) sy’n storio pob parsel o dir yn ddigidol at ddibenion rheolaeth.

10. Mae nifer o broblemau wedi codi yn ystod oes y prosiect sydd wedi peri i’r taliadau cyfredol gael eu talu'n hwyrach nag a fyddem wedi dymuno eu talu. Er enghraifft: Clwy'r Traed a'r Genau; problemau'n ymwneud â diweddaru'r rhwydwaith; prinder staff allweddol oherwydd iddynt gael eu symud o Gaerfyrddin a Llandrindod i Gaerdydd; materion busnes, yn arbennig y dasg enfawr o gwblhau Archwiliadau Manwl ar y System Olrhain Gwartheg cyn talu cymorthdaliadau gwartheg; cyflwyno system gyfrifiadurol gyllid newydd ar gyfer y Cynulliad sydd wedi golygu cryn dipyn o waith i ddatrys gorgyffwrdd technegol a busnes; ymdrech sylweddol i baratoi a hyfforddi staff a'u helpu i gynefino â ffyrdd newydd o weithio a chyfnodau arbrofi hirach nag a fwriadwyd er mwyn sicrhau rheolaeth gadarn.

**Y sefyllfa bresennol**

11. Rydym wastad wedi datgan yn glir bod gweithredu unrhyw Raglen o newidiadau yn mynd i beri problemau - yn enwedig un sy'n golygu newid strwythurau trefniadol a gweithredu systemau TG. O

reidrwydd, mae'r system newydd yn un gymhleth a soffistigedig ac mae'r adnoddau i'w datblygu/ gweithredu yn brin ac yn gostus. Mae hyn yn peri problemau ychwanegol o ran cysondeb busnes wrth gyfrifo'r adnoddau'n ofalus er mwyn sicrhau'r cynhyrchiant a'r gwerth am arian gorau posibl. (Mae'n anochel mai'r un staff arbenigol fydd yn gorfod helpu i gynllunio a phrofi systemau newydd yn ogystal â pharhau i reoli: ein 16,000 a mwy o ymgeiswyr IACS; mesurau rheoli eraill megis cwotâu ac archwiliadau maes; dros 150,000 o daliadau y flwyddyn; cysylltiadau ac archwiliadau manwl rhyngom ni ac asiantaethau eraill i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau; a monitro ac adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd a'i archwilwyr.)

12. Roddwyd system graidd IACS ar waith ym mis Mai 2002. Oherwydd llawer o'r effeithiau a nodwyd uchod, roedd yn rhaid cwblhau cryn dipyn o gwaith datblygu'r IACS yn ystod haf 2002. O ganlyniad, mae'r gwaith o ddilysu'r IACS a datblygu'r rhaglen wedi cael ei oedi ers y cynllun gwreiddiol.

13. Bellach, mae'r system IACS yn gwbl weithredol ac mae gennym y gallu i reoli a gwneud taliadau ar nifer o gynlluniau. Nodir y sefyllfa o ran taliadau yn Atodiad 1. Gan gynnwys:

- Ffenestri taliadau;
- Dyddiadau dechrau ar gyfer taliadau eleni;
- Y datblygiadau hyd yma; a lle bo'n addas
- Amcangyfrifon ar gyfer y misoedd nesaf

Gofynnodd aelodau'r pwyllgorau hefyd am wybodaeth ar sut yr oedd ein perfformiad yn cymharu â Lloegr yn y gorffennol. Yn Atodiad 2 ceir yr hyn y bu'n bosibl i ni ei gasglu yn yr amser a oedd ar gael.

**Y flwyddyn nesaf a thu hwnt**

14. Mae'r prosiect nawr yn anelu at ddirwyn i ben ddechrau 2004 (yn hytrach na Mawrth 2003 fel y bwriadwyd yn wreiddiol) gan adael CAPM â chyfres o asedion TG sy'n rhoi manteision o ran:

- Awtomeiddio a rheoli prosesau;

- Rheoli dogfennau;

- Gwell hyblygrwydd i fynd i'r afael â chymhlethdodau'r cynllun newydd (hanfodol yng nghyd-destun yr Adolygiad Canol Tymor);

- Gwella'r parhad o ran gwasanaethau a'u gwneud yn fwy cadarn;

- Gwasanaeth cwsmeriaid tipyn gwell o ran taliadau prydlon a chywir ar sail system reoli IACS haws i'w deall gan y bydd yn seiliedig ar fapiau digidol yn hytrach na llinellau o ddata diystyr fel yn y gorffennol;

- System sy'n cydymffurfio'n gyfan gwbl â’r rheoliadau; a

- System a fydd (drwy ei datblygu ymhellach) yn galluogi ffermwyr i gael gafael ar wybodaeth a ffurflenni a chyflwyno eu ceisiadau yn electronig, a monitro eu datblygiad, heb orfod ffonio na threulio cyfnodau hir yn eistedd mewn Swyddfeydd Rhanbarthol.

15. Mae llawer o waith i'w wneud i sicrhau llwyddiant a bydd sawl her arall yn ein hwynebu yn 2003 i sicrhau parhad o ran busnes a rhoi'r system ar waith, a hynny gan fodloni disgwyliadau'r diwydiant. Bydd parhau i gyfathrebu â'r diwydiant yn allweddol i'n llwyddiant ac mae strwythurau a phrosesau ar waith i sicrhau bod ffermwyr a'u cynrychiolwyr yn ymwybodol o'r datblygiadau ac o hynt taliadau unigol.

16. Serch hynny, unwaith y bydd gwaith datblygu wedi'i wneud ar unrhyw agwedd o'r system, mae'n bwysig nodi y bydd ar gael ar unwaith i'w defnyddio yn y dyfodol. Gan hynny, bydd unrhyw brofion a gwaith datblygu yn y dyfodol yn cael ei gyfyngu i gynlluniau newydd neu newidiadau rheoliadol neu bolisi i'r cynlluniau presennol.

**Y Sefyllfa Mewn Gwledydd Eraill**

17. Bydd yn rhaid i Asiantaethau Talu eraill yn Ewrop gydymffurfio â'r rheoliadau a moderneiddio eu systemau. Mae'r RPA wedi dyfarnu contract i Accenture i'w cynorthwyo i adnewyddu eu systemau y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

18. Mae gwledydd Ewropeaidd eraill yn ogystal â gwledydd a gafodd eu derbyn i'r UE yn datblygu ac yn gweithredu systemau newydd. Bu cynrychiolwyr o Sweden a'r Alban yma ar ymweliad am fod ganddynt ddiddordeb yn y dull yr ydym wedi'i ddatblygu. Rydym yn canolbwyntio nawr ar roi'r wedd derfynol ar y systemau at ein defnydd ni. Ond yn y dyfodol, gall fod cyfleoedd i'r Cynulliad drosglwyddo'r dechnoleg i Asiantaethau Talu eraill ac elwa o hynny.